Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad cyfarfod Rhagfyr 2025
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost ac yn y Neuadd Gymunedol cyn y cyfarfod ac ar y wefan.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion Medi 2025.
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y Cae Chwarae.

CLWB PÊL-DROED IAU LLANYBYDDER
Cadarnhawyd y byddai caniatâd i glwb pêl droed Llanybydder ddefnyddio'r cae chwarae ar amodau penodol. Roedd y clerc wedi danfon ebost i gadarnhau 'rdefnydd o'r cae ond heb dderbyn urhyw ymateb a oedd bwriad gan Clwb Pêl-droed Iau Llanybydder ddefnyddio'r cae chwarae yn y dyfodol.

DATBLYGU'R CAE CHWARAE:
Cafwyd cadarnhad bod angen cael Rheoliadau Adeiladu cyn cyflwyno Cais Cynllunio.

GWEFAN LLANLLWNI:
Yr oedd Adroddiad Rhagfyr 2025 ar y wefan ac wedi ei anfon i'r wasg leol. Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Neuadd Gymunedol cyn y cyfarfod ac ar y wefan.

Derbyniwyd amryw gwynion nad oedd gwaith cynnal a chadw ar ffyrdd y plwyf wedi ei gwblhau er i'r clerc gysylltu â'r swyddogion priodol yn y sir ynglŷn â'r pwnc.

DYFFRYN TEIFI YN ERBYN PEILONAU:
Llythyr yn gofyn am gefnogaeth. Roedd y Clerc wedi cysylltu ag Un Llais Cymru. Pe byddai Cyngor Bro Llanllwni yn cyfrannu, ni fyddent yn gallu datgan barn pe byddai cais cynllunio yn cael ei gyflwyno. Roedd copi o'r llythyr wedi ei anfon at Linda Evans ac awgrymwyd gan Linda Evans y byddai'n holi am ragor o wybodaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.
Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni
nos Lun 26 Ionawr am 7.30yh.